

Asesiad Opsiynau Ymgynghori

Teitl: Mesurau atebolrwydd personol ar uwch weithredwyr cwmnïau ar-lein sy'n torri'r gyfraith ar gyllyll.

Math o fesur: Deddfwriaeth Sylfaenol

Adran neu asiantaeth: Y Swyddfa Gartref

Rhif OY: HOCOA1006

Cyswllt ar gyfer ymholiadau: Owen Hanson

Dyddiad: 11 Tachwedd 2024

1. Crynodeb o'r cynnig

- Mae'r llywodraeth yn gweithredu ei hymrwymiad maniffesto i osod mesurau atebolrwydd personol ar swyddogion gweithredol sy'n torri'r deddfau ar werthu cyllyll trwy ei gwneud yn ofynnol i farchnadoedd ar-lein a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol gael gwared yn gyflym ar gynnwys anghyfreithlon ynghylch cyllyll.
- Byddai'r cynnwys anghyfreithlon hwn yn cael ei ddiffinio fel cynnwys sy'n ymwneud â gwerthu arfau gwaharddedig o dan adran 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988¹, gwerthu cyllyll fflicio a chyllyll disgrychiant o dan adran 1 o Ddeddf Cyfyngu Arfau Ymosodol 1959² a marchnata cylllell sy'n awgrymu ei bod yn addas ar gyfer ymryson yn erbyn neu'n annog/efelychu ymddygiad treisgar fel o dan adrannau 1³ a 2⁴ o Ddeddf Cyllyll 1997.
- Mae'r llywodraeth eisiau rhoi'r pŵer i'r heddlu allu rhoi "hysbysiadau dileu cynnwys" i lwyfannau a marchnadoedd ar-lein a'u huwch swyddogion gweithredol.
- Bydd yr hysbysiadau yn galw ar i farchnadoedd a llwyfannau ar-lein dynnu i lawr darnau penodol o gynnwys anghyfreithlon a bostiwyd gan unigolion sy'n cynnwys arfau ymosodol anghyfreithlon i'w gwerthu neu sy'n marchnata cyllyll yn anghyfreithlon mewn ffyrdd sy'n awgrymu eu haddasrwydd ar gyfer ymryson neu sy'n annog trais drwy ddefnyddio'r gyllell fel arf.

5. Byddai'r hysbysiad cais dileu cynnwys yn cael ei anfon i'r llwyfan ar-lein neu'r farchnad yn gyntaf ac yn ei gwneud yn ofynnol iddo dynnu'r cynnwys i lawr o fewn 2 ddiwrnod. Os bydd y cwmni'n methu â gweithredu ar hyn bydd yr heddlu'n rhoi ail gais dileu cynnwys i uwch weithredwr yn y cwmni hwnnw. Os bydd yr uwch weithredwr ym methu â sicrhau bod y cynnwys yn cael ei dynnu i lawr o fewn 2 ddiwrnod, byddai'n agored i gamau sifil. Bydd gan y cwmni a'r uwch weithredwr yr hawl i adolygu a yw'r cynnwys yn anghyfreithlon ar ôl cael hysbysebiad dileu cynnwys priodol, a byddai gan yr uwch weithredwr yr hawl i wrthwynebu ar ôl iddo gael gwybod ei fod yn cael ei ddwyn i'r llys sifil.

1 Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988 (deddfwriaeth.gov.uk): <https://www.deddfwriaeth.gov.uk/ukpga/1988/33/adran141>

2 Deddf Cyfyngu Arfau Ymosodol 1959 (deddfwriaeth.gov.uk): <https://www.deddfwriaeth.gov.uk/ukpga/Eliz2/7-8/37/adran/1>

-3 Deddf Cyllyll 1997 (deddfwriaeth.gov.uk): <https://www.deddfwriaeth.gov.uk/ukpga/1997/21/adran/1>

4 Deddf Cyllyll 1997 (deddfwriaeth.gov.uk): <https://www.deddfwriaeth.gov.uk/ukpga/1997/21/adran/2>

6. Rydym yn cynnig y byddai'r ddirwy am beidio â chydymffurfio â'r hysbysiad i ddileu cynnwys yn o leiaf £10,000, a bennir gan y llys. Credwn fod dirwy ar y lefel hon yn ddigon i weithredu fel rhwystr ac y byddai'n newid ymddygiad, tra'n cadw cymesuredd.

2. Achos strategol dros y rheoleiddio arfaethedig

Beth yw'r broblem dan ystyriaeth?

7. Mae'r heddlu wedi adrodd mai un o'r problemau mwyaf wrth fynd i'r afael â throeddau cyllyll yw gwerthwyr preifat neu ailwerthwyr sy'n defnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i werthu cyllyll yn anghyfreithlon. Mae unigolyn yn gwerthu cyllell yn anghyfreithlon lle mae'n gwerthu arfau bygythiol gwaharddedig, yn gwerthu neu'n cynnig cyllyll ar werth i bobl o dan 18 oed ac yn marchnata cyllyll mewn ffyrdd sy'n annog trais neu'n hybu eu haddasrwydd i'w defnyddio mewn ymosodiadau treisgar.
8. Mae'r gwerthwyr neu'r ailwerthwyr preifat hyn yn gwerthu arfau ymosodol gwaharddedig a chyllyll er elw, mae'r llywodraeth wedi cael gwybod drwy blismona am ddigwyddiadau lle gwerthwyd y cyllyll hyn i bobl o dan 18 oed ac wedi'u defnyddio'n ddiweddarach mewn ymosodiadau cyllyll a lladdiadau.

9. Mae'r gwerthwyr hyn yn cyflawni troseddau o dan adrannau 141 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1988, adran 1 o Ddeddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959 ac adrannau 1 a 2 o Ddeddf Cyllyll 1997.
10. Fodd bynnag, mae angen i gwmnïau ar-lein weithredu'n gyflymach i dynnu i lawr y cynnwys penodol a bostiwyd gan y gwerthwyr hyn er mwyn atal pobl, gan gynnwys pobl dan 18 oed, rhag gallu prynu arf neu gyllell ymosodol waharddedig.
11. Mae'r llywodraeth wedi ymrwymo i wneud y strydoedd yn fwy diogel, ac i leihau troseddau cyllyll 50 y cant yn y degawd nesaf. Mae'r addewid hwn yn cynnwys dal swyddogion gweithredol cwmnïau ar-lein sy'n torri'r gyfraith ar werthu cyllyll i gyfrif trwy sancsiynau llym.

Pa dystiolaeth sydd i gefnogi'r datganiad problemus?

12. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2024, cofnododd yr heddlu gyfanswm o 50,973 o droseddau ym ymwneud ag offeryn miniog. Roedd hyn yn gynydd o bedwar y cant o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2023 (49,187 o droseddau). Gwelwyd cynnydd nodedig hefyd yn nifer y lladdiadau yn ymwneud â chyllell neu offeryn miniog, a oedd i fyny 11 y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r holl lladdiadau a gofnodwyd yn yr un flwyddyn, roedd cyfran y lladdiadau lle defnyddiwyd cyllell neu offeryn miniog fel y dull o ladd yn 44 y cant, cynnydd bychan o'u gymharu â 42 y cant y flwyddyn flaenorol.⁵

⁵ Trosedd yng Nghymru a Lloegr - Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ons.gov.uk) - Nid yw'r Ffigyrau'n Cynnwys Heddlu Manceinion Fwyaf

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/bulletins/crimeinenglandandwales/yearendingjune2024#homicide>

13. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, gwnaed dros 18,000 o rybuddiadau ac euogfarnau am feddu ar gyllell neu arf ymosodol, gan gyfrif am 29 y cant o gyfanswm y troseddau. Roedd hyn yn ostyngiad bychan o ddau y cant o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
14. Mae dull cynhwysfawr y llywodraeth o wella mesurau ataliol yn anelu at leihau nifer y troseddau sy'n ymwneud ag offeryn miniog, a nifer y bobl sy'n cario arfau ymosodol. Mae'r dull hwn yn cynnwys y rhaglen 10 mlynedd newydd Dyfodol Ifanc a chamau llymach a gymerwyd yn erbyn troseddwr.
15. Rhwng Ebrill 2023 ac Ebrill 2024, bu cynnydd o dri y cant yn nifer y derbyniadau i'r ysbyty oherwydd ymosodiad gyda gwrthrych miniog. Mae achos i'r llywodraeth ymyrryd fel bod llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty oherwydd anafiadau sy'n gysylltiedig â chyllyll. Bydd lleihau'r cyflenwad o gyllyll sydd wedi'u marchnata'n anghyfreithlon neu sy'n waharddedig drwy wneud i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a marchnadoedd ar-lein wneud mwy i ddileu cynnwys yn gyflym yn helpu i gyflawni hyn.

Pam mae angen gweithredu neu ymyrryd gan y llywodraeth?

16. Mae troseddau cylllyll yn fater cymhleth, sy'n gofyn am atebion amlochrog, ac mae'r llywodraeth yn benderfynol o roi mesurau ar waith i leihau trais sy'n ymwneud â chylllyll.
17. Mae'r llywodraeth yn lansio ymgynghoriad cyhoeddus i fesur barn yr ymatebwyr ar osod sancsiynau sifil ar weithredwyr llwyfannau cyfryngau cymdeithasol neu farchnadoedd ar-lein. Yn benodol, y rhai nad ydynt yn tynnu i lawr yn gyflym cynnwys anghyfreithlon pan hysbysir iddyn nhw gan yr heddlu.
18. Mae'r llywodraeth o'r farn y bydd y mesurau hyn yn annog llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a marchnadoedd ar-lein i wneud mwy i darfu ar weithgareddau o'r fath. Gweithio i atal cofrestriad gwerthwyr cylllell trydydd parti sy'n ceisio gwerthu arfau neu gyllyll gwaharddedig i bersonau o dan 18 oed, neu farchnata cylllyll mewn ffordd anghyfreithlon trwy sicrhau bod y swyddog gweithredol yn atebol.
19. Mae'r llywodraeth yn awyddus i gael dealltwriaeth fwy manwl gywir o raddfa ailwerthu cylllyll ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol mawr a marchnadoedd ar-lein. Yn enwedig i ba raddau y mae llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a marchnadoedd ar-lein eisoes yn mynd i'r afael â'r broblem, er enghraifft drwy dimau cymedroli cynnwys a thynnu i lawr cynnwys o'r fath.
20. Mae'r llywodraeth yn cydnabod y dylai fod darpariaeth ar gyfer rhai amddiffyniadau i gwmnïau cyfryngau cymdeithasol a marchnadoedd ar-lein mewn perthynas â diffyg cydymffurfio gyda hysbysiadau dileu cynnwys. Efallai mai dyma lle gallai'r cwmni ddod ar draws materion technegol a allai achosi oedi cyn cymryd y cynnwys i lawr o fewn y cyfnod penodol o amser.
21. Mae'r llywodraeth hefyd yn ymwybodol bod angen rhywfaint o amddiffyniad i uwch weithredwyr ar gyfer achlusuron pan yw'r uwch weithredwyr yn rhy newydd yn y swydd i gael eu hystyried yn gyfrifol am fethu â chydymffurfio â hysbysiadau dileu cynnwys neu pan nad oedd ganddynt unrhyw wybodaeth am gael eu henwi fel uwch weithredwyr â chyfrifoldeb am sicrhau bod yr hysbysiad dileu cynnwys yn cael ei weithredu.

⁶ Ystadegau Dedfrydau Cylllyll ac Arfau Ymosodol: Ionawr i fis Mawrth 2024 - GOV.UK (<https://www.gov.uk/llywodraeth/ystadegau/dedfrydu/cylllyll/ac/arfau/ymosodol-ionawr-i-fawrth2024/ystadegau-dedfrydu-cylllyll-ac-arfau-ymosodol-ionawr-i-fawrth-2024>)

⁷ Gellir canfod rhagor o wybodaeth yn natganiad y llywodraeth i'r wasg ar lansiad clymblaid i fynd i'r afael â throseddau cylllyll.
<https://www.gov.uk/llywodraeth/newyddion/llywodraeth-i-lansio-clymblaid-newydd-i-fynd-i'r-afael-a-throseddau-cylllyll>

⁸Trosedd yng Nghymru a Lloegr - Tablau perthnasol eraill - Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ons.gov.uk):
www.ons.gov.uk/poblpoblogaethachymuned/troseddachyfiawnder/setiaudata/troseddyngnghymrualloegr/tablauperthnasoleraill

Pa fylchau neu niwed fyddai'n digwydd pe na bai'r llywodraeth yn ymyrryd?

22. Mae troseddau cyllyll yn effeithio ar ddioddefwyr trwy niwed emosiynol a chorfforol, yn ogystal ag achosi costau i'r economi a'r gymdeithas yn ehangach (er enghraifft trwy golli allbwn, a chostau i wasanaethau iechyd a dioddefwyr, yr heddlu, a'r system cyfiawnder troseddol ehangach). Bydd y graddau y mae atebolrwydd personol ar weithredwyr ar-lein yn lleihau troseddau a alluogir gan gyllyll yn pennu i ba raddau y caiff y costau hyn eu lleihau.

3. Amcanion SMART ar gyfer ymyrraeth

23. Fel rhan o addewid y llywodraeth i wneud y strydoedd yn fwy diogel, ac i anrhydeddu ymrwymiad y maniffesto i gyflwyno sancsiynau llym ar swyddogion gweithredol cwmnïau ar-lein sy'n torri'r gyfraith ar gyllyll, mae'r llywodraeth yn archwilio gosod atebolrwydd personol ar swyddogion gweithredol cwmnïau ar-lein sy'n torri'r gyfraith ar werthu cyllyll. Y canlyniad a fwriedir yw tarfu ar weithgareddau gwerthwyr preifat neu ailwerthwyr, gan leihau troseddau a alluogir gan gyllyll trwy ddefnyddio'r ataliad lle bydd uwch swyddogion gweithredol yn bersonol atebol i wneud i lwyfannu cyfryngau cymdeithasol a marchnadoedd ar-lein wneud mwy yn gyflym i gael gwared ar gynnwys anghyfreithlon sy'n cael ei amlygu iddynt.
24. Y prif amcan yw sicrhau bod llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a marchnadoedd ar-lein yn cael gwared ar gynnwys anghyfreithlon a amlygwyd iddynt o fewn cyfnod byr o amser. Mae hyn yn cynnwys deunydd o dan adran 141 o'r Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988, adran 1 o'r Ddeddf Cyfyngu ar Arfau Ymosodol 1959 ac adrannau 1 a 2 o Ddeddf Cyllyll 1997.
25. Ar yr un pryd mae'r llywodraeth am sicrhau nad yw cynnwys cyfreithiol yn cael ei dynnu i lawr yn anfwriadol ac nad yw cwmnïau a swyddogion gweithredol yn cael eu cosbi'n annheg am fethu â chael gwared ar gynnwys anghyfreithlon mewn pryd oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth.

4. Disgrifiad o'r opsiynau ymyrraeth arfaethedig ac esboniad o'r broses newid rhesymegol lle mae hyn yn cyflawni amcanion SMART

Opsiwn 0 – Gwneud Dim

26. Nid yw'r Swyddfa Gartref yn cyflwyno rheoliadau newydd i ategu'r rhai a nodir yn Neddf Diogelwch Ar-lein 2023 (OSA 2023)⁹ i gynnwys sancsiynau sifil neu sancsiynau ar gyfer swyddogion gweithredol. Mae hyn yn peryglu y bydd y llywodraeth yn methu â chyflawni ei hamcan o gwtogi 50 y cant ar droseddau

cyllyll yn y degawd nesaf a'i hymrwymiadau maniffesto i ddal swyddogion gweithredol yn bersonol atebol am dorri rheolau ynghylch gwerthu cyllyll ar-lein.

Opsiwn 1 – Sancsiynau Sifil

27. Mae'r Swyddfa Gartref wedi cynnal ymchwil ar ddichonoldeb cynnig i osod cyfundrefn sancsiynau sifil gan sicrhau atebolrwydd personol uwch weithredwyr llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a marchnadoedd ar-lein nad ydynt yn tynnu i lawr cynnwys yn ddigon cyflym pan hysbysir nhw gan yr heddlu. Bydd hyn yn cael ei brofi yn yr ymgynghoriad cyhoeddus.
28. Bydd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar yr opsiwn arfaethedig, sut y bydd yn gweithredu'n ymarferol ac amddiffyniadau.
29. Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn defnyddio'r ymgynghoriad cyhoeddus i ddatblygu amcangyfrif o faint y farchnad ar-lein a'r raddfa y mae gwerthwyr preifat ac ailwerthwyr yn gweithredu o fewn y farchnad ar-lein ar gyfer cyllyll. Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn ymgysylltu'n rhagweithiol â digwyddiadau ar-lein i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad a bwydo i mewn i ddatblygiad pellach yr asesiad effaith.
30. Bydd y cynnig hwn yn dilyn dulliau profedig. Mae llysoedd sifil sy'n rhoi dirwyon am dorri dyletswydd statudol yn rhan dderbyniol o dirwedd gyfreithiol y DU.
31. Mae fframwaith deddfwriaethol ar waith eisoes mewn perthynas â diogelwch ar-lein. Mae'r OSA 2023 hefyd yn gosod dyletswydd ar farchnadoedd ar-lein a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol i gael systemau cymesur ar waith i, ymhlith dyletswyddau eraill, ddileu cynnwys anghyfreithlon yn gyflym pan ddônt yn ymwybodol ohono. Os bydd methiant systemig gan gwmnïau i ddileu cynnwys anghyfreithlon, gallant gael dirwy o hyd at 18 milliwn neu 10 y cant o'u refeniw byd-eang cymwys, pa un bynnag sydd fwyaf. Mae'r cynnwys y mae'r llywodraeth eisiasu i reolwyr ei dynnu i lawr yn gynnwys sydd eisoes yn torri'r gyfraith bresennol.
32. Byddai'r llywodraeth yn cyflwyno'r cynnig hwn fel deddfwriaeth sylfaenol fel rhan o'r Bil Troseddu a Phlismaona sydd ar ddod.

5. Crynodeb o'r rhestr hir a dewisiadau eraill

33. Mae dal i gyfrif y gweithredwyr cwmnïau ar-lein sy'n torri'r gyfraith ar werthu cyllyll yn ymrwymiad maniffesto y llywodraeth.
34. Mae'r Swyddfa Gartref yn ymgynghori ar sut i gyflawni'r ymrwymiad hwn drwy geisio barn am ein sancsiwn sifil arfaethedig sy'n gosod atebolrwydd personol ar uwch swyddogion gweithredol. Yn ogystal, gweithio i ddatblygu amcangyfrif o faint y farchnad ar-lein a'r raddfa y mae gwerthwyr ac ailwerthwyr preifat yn gweithredu o fewn y farchnad ar-lein ar gyfer cyllyll, yn ogystal ag ymgynghori'n benodol â'r cwmnïau ar-lein ar y cynigion.

35. Nid oedd rhestr hir o opsiynau gan mai ymrwymiad maniffesto yw hwn. Nid oedd yn bosibl eithrio busnesau bach a micro / busnesau canolig o gwmpas y polisi gan y byddai hyn yn tansilio pwrpas yr atebolrwydd personol arfaethedig ar gyfer sancsiynau sifil (i ddiogelu diogelwch y cyhoedd). Yn ogystal, mae'r heddlu yn debygol o ganolbwyntio ar y busnesau mawr, (er enghraifft marchnadoedd ar-lein megis Amazon, eBay a Meta) a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol mawr (er enghraifft SnapChat, TikTok, Instagram) gan y bydd cynnwys anghyfreithlon ar y llwyfannau hyn yn cael y cyrhaeddiad mwyaf.

6. Disgrifiad o'r opsiynau polisi ar y rhestr fer a gariwyd ymlaen

36. Mae dau opsiwn wedi'u cario ymlaen:

9 Deddf Diogelwch Ar-lein 2023

<https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2023/50/contents>

- **Opsiwn 0 – Gwneud Dim**
- **Opsiwn 1 – Sancsiynau Sifil ar swyddogion gweithredol y mae eu cwmnïau yn mynd yn groes i hysbysiadau dileu cynnwys yn gyson.**

37. Pwrpas yr ymgynghoriad:

- a) Mesur y gefnogaeth i ddull arfaethedig y llywodraeth o osod sancsiynau sifil a'r effeithiau tebygol o gymharu â senario busnes-fel-arfer.
- b) Darparu mwy o wybodaeth am yr hyn y mae rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ei ystyried yn gyfnod teg o amser i roi i gwmnïau i ddileu cynnwys anghyfreithlon. Bydd hyn yn dilyn unwaith yr hysbysir nhw gan yr heddlu drwy hysbysiad dileu cynnwys.
- c) Helpu'r llywodraeth ddatblygu amcangyfrif o faint y farchnad ar-lein ar gyfer cyllyll, a'r raddfa y mae gwerthwyr ac ailwerthwyr yn gweithredu arni o fewn y farchnad ar-lein ar gyfer cyllyll.
- d) Casglu tystiolaeth o unrhyw gostau posibl sy'n gysylltiedig â rhoi'r mesur hwn ar waith i fusnesau, er enghraifft y gost bosibl i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a marchnadoedd ar-lein o logi unrhyw gymedrolwyr newydd.
- e) Casglu mewnbwn ar ba amddiffyniadau ddylai fodoli ar gyfer diffyg cydymffurfio.

7. Monitro a gwerthuso

38. Bydd effaith gosod atebolrwydd personol ar uwch swyddogion gweithredol llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a marchnadoedd ar-lein sy'n methu â chymryd camau i atal gwerthiant anghyfreithlon cyllyll ac arfau eraill yn cael ei

fonitro gan ddefnyddio adborth/tystiolaeth gan yr heddlu ar ba mor gyflym mae cwmnïau yn dileu cynnwys anghyfreithlon a thrwy ystadegau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn ymwneud ag erlyn troseddau perthnasol. Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn cadw dan adolygiad effaith y mesurau ar fusnes, yn enwedig unrhyw gost ychwanegol i gwmnïau yn sgil llogi cymedrolwyr cynnwys ychwanegol.

8. Lleihau costau gweinyddol a chydymffurfio

39. Bydd cost weinyddol i lwyfannau cyfryngau cymdeithasol a marchnadoedd ar-lein am gydymffurfio â hysbysiadau dileu cynnwys a gyhoeddir gan yr heddlu. Ni all y Swyddfa Gartref wneud amcangyfrif ar hyn o bryd ond bydd yr ymgynghoriad yn casglu gwybodaeth ar faint o lwyfannau ar-lein fydd yn gorfod newid eu prosesau. Bydd y llywodraeth yn sicrhau bod y broses hon mor syml â phosibl ac yn cynhyrchu canllawiau i helpu busnesau i ddeall y broses.

Datganiad

Adran: Home Office – Public Safety Group

Manylion cyswllt ar gyfer ymholiadau:

Owen Hanson

Owen.Hanson@homeoffice.gov.uk

Simon Eglington

Simon.Eglington@homeoffice.gov.uk

Y Gweinidog sy'n Gyfrifol: Minister for Crime, Policing and Fire

Rwyf wedi darllen yr Asesiad Opsiynau Ymgynghori ac rwy'n fodlon, o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ei fod yn cynrychioli barn resymol o gostau, buddion ac effaith tebygol yr opsiynau arweiniol.

Llofnodwyd:

Dyddiad: 11 Tachwedd 2024

Crynodeb: Dadansoddiad a thystiolaeth

Ar gyfer AO Ymgynghori, nid yw'n ofynnol cwblhau pob un o'r isod, ond cwblhewch gymaint ag y gallwch lle bo modd. Ar gyfer pob dewis ar y rhestr fer, cynhwyswch golofn yn y tabl isod.

Blwyddyn sylfaen pris:

Blwyddyn sylfaen PV:

Gellir ail-fformatio'r tabl hwn ar yr amod y cedwir y gymhariaeth o opsiynau ochr-yn-ochr	0. Busnes fel arfer (gwaelodlin)	1. Rhestr fer Opsiwn 1 Sanctsiwn sifil i swyddogion gweithredol y mae eu cwmnïau yn torri hysbysiadau dileu cynnwys yn gyson
Gwerth cymdeithasol presennol net (gyda disgrifiad byr, gan gynnwys ystodau, o gostau a buddion unigol)		Ar hyn o bryd nid yw dadansoddwyr y Swyddfa Gartref yn gallu darparu amcangyfrif NPSV dibynadwy. Bydd yr ymgynghoriad hwn sydd ar ddod yn ein helpu i gasglu gwybodaeth ychwanegol y gellir ei defnyddio i feintoli effeithiau'r mesur hwn drwy lenwi'r bylchau presennol yn y dystiolaeth i ddatblygu amcangyfrif arfarnu mwy cywir. Gallai'r costau sylfaenol sy'n gysylltiedig â'r mesur hwn gynnwys newidiadau posibl yn y staffio ar gyfer llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, costau hyfforddi a chynefino, ac effeithiau posibl ar y system CPS, megis achosion llys cynyddol a dyraniad adnoddau'r heddlu. Y brif fantais a ragwelir yw'r buddion diogelwch cyhoeddus a enillir trwy ostyngiad posibl mewn troseddau cyllyll.
Costau ariannol y sector cyhoeddus (gyda disgrifiad byr, gan gynnwys ystodau)		Er nad yw costau CJS penodol ar gyfer yr opsiwn hwn ar gael ar hyn o bryd, mae Prawf Effaith Cyfiawnder blaenorol ar gyfer y Bil Diogelwch Ar-lein yn gyfeiriad defnyddiol o ystyried natur debyg y mesur. Barnwyd mai ychydig iawn o effaith a gafodd y Bil hwn, gyda chostau'n ymwneud yn bennaf â'r corff apeliadau. Amcangyfrifwyd y byddai'r rhain yn £3,500 fesul achos, a disgwylir tua 10 achos bob blwyddyn a chost cychwyn ychwanegol o £7,000. Bydd yr ymgynghoriad sydd i ddod yn helpu'r Swyddfa Gartref i ddeall y nifer disgwyliedig o achosion y gallai hyn arwain ato mewn blwyddyn. Mae'r Swyddfa Gartref yn cydnabod y gallai fod costau cyfle yn

		gysylltiedig ag ailffocysu adnoddau'r heddlu. Fodd bynnag, nid yw union faint yr effaith hon yn hysbys ar hyn o bryd a bydd yn brif ffocws i'r broses ymgynghori.
Manteision a chostau buddion sylweddol heb eu meintioli (disgrifiad, gyda graddfa lle bo modd))		Mae'r Swyddfa Gartref yn rhagweld y bydd y mesur yn cyfrannu at wella diogelwch y cyhoedd drwy leihau trais difrifol. Fodd bynnag, oherwydd diffyg tystiolaeth ddigonol, ni allwn fesur union faint y gostyngiad hwn ar hyn o bryd. Mae'n debygol y bydd asesiadau yn y dyfodol yn defnyddio dadansoddiad adennill costau, gan ddefnyddio'r adroddiad 'costau economaidd a chymdeithasol troseddu' i bennu nifer y lladdiadau, lladradau, a'r anafiadau treisgar y byddai angen eu hatal er mwyn cyfiawnhau costau'r polisi.
Risgiau allweddol (a chostau risg, a thuedd optimistaeth, lle bo'n berthnasol)		Un o'r priif heriau yw'r diffyg data gronynnog ar union darddiad y cyllyll a ddefnyddir mewn troseddau. Tra bod y Swyddfa Gartref yn gallu olrhain tueddiadau mewn troseddau cyllyll, nid yw'r data cyfredol yn nodi ffynonellau penodol o gyllyll, megis marchnadoedd ar-lein neu siopau. Yn ogystal, gallai effeithiolrwydd y mesur gael ei effeithio gan effeithiau dadleoli posibl, lle bydd troseddwyr yn prynu neu'n cael cyllyll o leoliadau eraill.
Canlyniadau'r dadansoddiad sensitifrwydd		

Atodiad

Sylfaen Tystiolaeth

Effeithiau â gwerth ariannol

1. Ar hyn o bryd ni all dadansoddwyr y Swyddfa Gartref roi amcangyfrif dibynadwy o'r costau a'r buddion ariannol. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn helpu dadansoddwyr y Swyddfa Gartref i gasglu gwybodaeth ychwanegol y gellir ei defnyddio i feintioli goblygiadau cost a budd y mesur hwn ac felly datblygu amcangyfrif arfarnu mwy cywir. Mae'r costau a'r buddion y mae'r Swyddfa Gartref yn disgwyl eu creu a'u hariannu mewn dadansoddiad yn y dyfodol wedi'u hamlinellu yn yr effeithiau anariannol.

Effeithiau anariannol

Costau

Costau Ymgysylltu

2. Bydd yr opsiwn arfaethedig yn gofyn am gostau sefydlu trwy ymgysylltu, wrth i staff o lwyfannau ar-lein a'r heddlu ddod i arfer â'r mesur newydd. O'r ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd y Swyddfa Gartref yn datblygu amcangyfrif o nifer y cyflogeion o lwyfannau ar-lein a'r heddlu y bydd angen iddynt ymgysylltu â'r mesur newydd.

Costau Staffio

3. Gall y mesur hwn greu costau staffio ar gyfer y llwyfannau ar-lein a'r heddlu. Gall llwyfannau ar-lein gyflogi mwy o gymedrolwyr cynnwys i nodi a chael gwared ar gynnwys niweidiol, tra bydd yr heddlu angen adnoddau ychwanegol i fonitro cydymffurfiaeth ac o bosibl ymchwilio i droseddau cysylltiedig. Gall yr effaith hon amrywio o ran maint a chwmpas ar draws lluoedd a'r llwyfannau eu hunain. Er nad yw'r mesur yn darparu cyllid ychwanegol i'r heddlu o ran staff, byddai'r posibilrwydd o ailddyrranu adnoddau presennol yn golygu costau cyfle. Nid yw union faint hyn yn hysbys ar hyn o bryd. Mae ceisio barn ar yr hyn y dylai'r heddlu fod ac a fydd yn brif ffocws y broses ymgynghori. Unwaith y bydd y llywodraeth yn gwybod beth yw'r heddlu bydd y Swyddfa Gartref yn ymgysylltu â nhw i ganfod y costau.
4. Gall y costau hyn fod yn fach iawn gan fod y mesur hwn ond yn ychwanegu ataliad a chanlyniad ychwanegol i ddeddfwriaeth sydd eisoes ar waith. Mae'n bosibl na fydd niferoedd staffio'n newid naill ai'r yn yr heddlu na'r cwmnïau, cyfryngau ar-lein; fodd bynnag gallai'r effaith amrywio ar draws cyrff gorfodi a chwmnïau bosibl. Trwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad mae'r Swyddfa Gartref yn gobeithio cael effaith FTE ar gyfer y cwmnïau ar-lein a'r heddlu a'r ysgogwyr bosibl i hyn.

Costau'r System Cyfiawnder Troseddol (CJS)

5. Mae'r Swyddfa Gartref yn rhagweld costau sy'n gysylltiedig ag erlyniadau ac apeliadau bosibl. Fodd bynnag, o ystyried lefelau incwm tebygol swyddogion gweithredol ar-lein, ni ragwelir costau cymorth cyfreithiol.
6. Er nad yw costau CJS penodol ar gyfer yr opsiwn hwn ar gael ar hyn o bryd, mae Aseiad Effaith blaenorol ar gyfer OSA 2023 yn rhoi cyfeiriad defnyddiol o ystyried natur debyg y mesur. Ystyriwyd mai ychydig iawn o effaith y byddai CJS 2023 yn ei chael, gyda chostau'n ymwneud yn bennaf â'r corff apeliadau. Amcangyfrifwyd y byddai'r rhain yn £3,500 fesul achos, a disgwylir tua 10 achos bob blwyddyn, a chost cychwyn ychwanegol o £7,000. Bydd yr ymgynghoriad sydd ar ddod yn helpu'r Swyddfa Gartref i ddeall y nifer disgwylidig o achosion newydd y gallai'r mesur hwn arwain atynt mewn blwyddyn.

Buddion

Diogelwch y cyhoedd

7. Nod y polisi hwn yw cyflwyno atebolrwydd personol ar gyfer uwch weithredwyr cwmnïau ar-lein sy'n methu â nodi a thynnu i lawr cynnwys sy'n ymwneud â gwerthu arfau a waherddir, gwerthu cyllyll i bersonau dan 18 oed, a marchnata cyllyll mewn ffordd sy'n awgrymu eu bod yn addas ar gyfer ymryson neu'n annog/efelychu ymddygiad treisgar.
8. Mae'r Swyddfa Gartref yn rhagweld y gallai'r mesur gyfrannu at wella diogelwch y cyhoedd drwy leihau trais difrifol. Fodd bynnag, oherwydd diffyg tystiolaeth ddigonol, nid yw'r Swyddfa Gartref yn gallu meintioli union faint y gostyngiad ar hyn o bryd. Un o'r prif heriau yw absenoldeb data gronynnog ar union darddiad y cyllyll a ddefnyddir mewn troseddau. Tra bod y Swyddfa Gartref yn gallu olrhain tueddiadau cyffredinol mewn troseddau cyllyll, nid yw'r data yn caniatáu iddi nodi ffynonellau penodol o gyllyll, megis marchnadoedd ar-lein neu siopau. Ymhellach, gallai effeithiolrwydd y mesur gael ei effeithio gan effeithiau dadleoli posibl, lle gall troseddwyr brynu neu gael cyllyll o leoliadau eraill.
9. Gallai'r cynnig hefyd arwain at gynnydd yn hyder y cyhoedd. Ni fydd y budd hwn yn cael ei roi mewn gwerth ariannol ar gyfer yr Aseiad Effaith terfynol oherwydd diffyg tystiolaeth ar y ffactorau penodol sy'n ysgogi ofn troseddau cyllyll, ac i ba raddau y bydd y cynigion yn effeithio ar hyn.

Effeithiau cyffredinol disgwylidig

10. Ar hyn o bryd, nid oes tystiolaeth i'r Swyddfa Gartref amcangyfrif yn gywir effaith gyffredinol y mesur. Mae'r Swyddfa Gartref yn rhagweld mai costau staffio fydd y gost gysylltiedig fwyaf. Yn dilyn ymgynghoriad y Swyddfa Gartref dylai fod gan ddadansoddwyr y wybodaeth berthnasol i allu ystyried y gostyngiad troseddu angenrheidiol i adennill costau. Bydd dadansoddwyr yn defnyddio costau economaidd a chymdeithasol riportio troseddau i bennu nifer yr achosion o laddiadau, lladrata ac anafiadau treisgar y byddai angen eu hatal er mwyn cyfiawnhau costau'r polisi.
11. Bydd yr ymgynghoriad yn helpu i gasglu data a thystiolaeth hanfodol i lenwi bylchau presennol a galluogi aseiad mwy cywir.

10 Bil Diogelwch Ar-lein IA:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1061265/Online_Safety_Bill_impact_assessment.pdf#page=62

Effeithiau Dosbarthiadol

12. Mae'r buddion sy'n gysylltiedig â'r mesur yn debygol o fod yn fwy dwys mewn ardaloedd lle mae troseddau cyllyll wedi'u canolbwyntio'n fwy daearyddol, megis Gorllewin Canolbarth Lloegr a Llundain.

Effeithau ar flaenoriaethau pellach llywodraeth

Amgylchedd Busnes

13. Nid yw'r mesur hwn yn debygol o gael effaith ar ba mor ddeniadol yw marchnad y DU i lwyfannau ar-lein, gan fod hyn yn ychwanegu ataliad atodol ar gyfer deddfwriaeth gyfredol (OSA 2023)⁹. Mae gwerthwyr preifat neu ailwerthwyr ar y llwyfannau yr effeithir arnynt yn annhebygol o fod yn fusnesau cofrestredig neu gyfreithlon. Bydd hyn yn ychwanegu mwy o amddiffyniad i werthwyr cyllyll ar-lein cyfreithlon.

Ystyriaethau Rhyngwladol

14. Nid oes disgwyl i'r mesur hwn gael unrhyw effeithiau rhyngwladol.

Cyfalaf naturiol a Datgarboneiddio

15. Nid oes disgwyl i'r deddfwriaeth gael effaith amgylcheddol.

¹¹ Tablau data ardal heddluoedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Mawrth 2024): <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/policeforceareadatatables>

Dyletswydd Cydraddoldeb Statudol

Mae'n ofynnol i bob OA Ymgynghori sicrhau bod y Ddyletswydd Cydraddoldeb Statudol yn cael ei hadolygu gan yr SRO cyn ei chymeradwyo.

Prawf effaith penodol gorfodol - Dyletswyddau Cydraddoldeb Statudol	Cyflawn
<p>Dyletswyddau Cydraddoldebau Statudol</p> <p>Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin cysylltiadau da wrth ddatblygu polisiâu a darparu gwasanaethau.</p> <p>[Equality Duty Toolkit][[Pecyn Cymorth Dyletswydd Cydraddoldeb]</p> <p>Ein barn ni yw na fydd y polisi'n effeithio ar unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig. Rydym yn ymgynghori ar y polisi a byddwn yn</p>	<p>Ydy</p>

ymgysylltu â'r cwmnïau ar-lein i ddeall eu strwythur gweithredol a'u cyfansoddiad er mwyn nodi a oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu unrhyw effeithiau.

Mae'r SRO wedi cytuno ar y canfyddiadau cryno hyn. *(Rhaid i chi gael cytundeb SRO yma)*